

Darlith Goffa Hedley Gibbard. Traddodwyd yng nghyfarfod Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar faes Eisteddfod Tyddewi, Awst 6^{ed} 2002. Meg Elis

Does arna'i ddim isio rhoi'r ddarlith yma. Peidiwch â 'ngham-gymryd i - mae gen i bethau i'w dweud, a phethau fydd, gobeithio, o ddiddordeb chi yn y gynulleidfa sydd yn gyfieithwyr o ran proffesiwn neu o ran diddordeb. Pethau sy'n bwysig hefyd i gynulleidfa na fuasai'n gwranddo ar y ddarlith, achos fel y gwelwch chi yn y man, â nhw y mae a wnelo llawer o fater hyn o sgwrs. Ond nid mewn darlith i goffau Hedley Gibbard yr ydw i isio gwneud hyn, achos mae hi mor chwithig i mi sôn amdano fo yn y gorffennol, yr un oedd â chymaint o hyd i'w gynni i broffesiwn sy'n tyfu ac yn dablygu, a phroffesiwn y gwnaeth o gymaint i'w furfio ac i roi urddas ac esiampl iddo.

Mae'r esiamplau yr ydw i'n roi, y gwersi a ddysgais i, a'r hyn y bydda'i, gobeithio, yn gyfleu ac yn drosglwyddo i chi ac i gyfieithwyr eraill, oll yn deillio, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o'r hyn ddysgais i fy hun gan Hedley. Fuaswn i ddim yn gwneud yr hyn yr ydw i'n wneud heddiw, hebdo fo. Fuaswn i ddim yn fy swydd bresennol heddiw hebdo fo. Fuasai proffesiwn cyfieithu yng Nghymru ddim wedi cyrraedd ei fri a'i statws presennol hebdo fo.

Felly dyma rai sylwadau, rhai syniadau, a rhai canllawiau. Ac yr ydw i mor ofnadwy o ymwybodol fy mod i'n eu traddodi nhw mewn lle, mewn bywyd a mewn byd sydd hebdo fo.

Yr ydan ni'n leicio cwyno fel cyfieithwyr, tydan? Mi ofynnodd rhywun i mi rywbyrd - be' di'r enw torfol am gasgliad o gyfieithwyr? (*Gas gen i gwestiynau clyfar-clyfar felna, a dwi'n siwr eich bod chi'n gyfarwydd â mathau eraill - "Be' di'r cyfieithiad Cymraeg o banana?" a "Pwy ydi nawddsant cyfieithwyr?"*). Dau ateb sydyn : "Be ydi'r cyfieithiad Saesneg o banana?" a "Sant Jerome". Meddyliwch amdano fo.

Ond yr enw torfol. "Babel o gyfieithwyr" wnes i awgrymu. Ond myn diawch, mi fuasai "cwynfan o gyfieithwyr" llawn cystal enw weithiau: byddwch yn bry ar y wal yn y sgysiau anffurfiol pan fydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn dod at ei gilydd, ac mi gytunwch chi. "Fasa ti byth yn credu'r baich gwaith sydd

gynnon ni yn y swyddfa yma" "Ac mi ofynnias i - Rydach chi isio ugain mil o eiria erbyn **pryd?**" "A hanner y cwarfod yn cwyno " *The translators aren't working*", a'r blincin offer oedd ar fai, 'te...."

Wn i. Bum yno. Gwnes hynny. Prynais y crys. (Dyna chi. Peidiwch â phoeni, dyna'r unig dro yn ystod y ddarlith yma dwi'n mynd i wneud i chi weithio.) Ond - beth sy'n gyffredin i'r cwynion uchod? Pwysau gwaith ar swyddfa gyfieithu - pwy sy'n gosod y gwaith? A chwyno am offer cyfieithu - pwy sy'n cwyno? Dyna chi - y cwsmer. Y cleient. Y nhw. Y blincin boen, ac enwau cryfach yr ydw i wedi eu clywed - ac wedi eu defnyddio fy hun. Y rhai yr ydan ni'n gweithio iddyn nhw. Y rhai hanfodol - oherwydd hebddyn nhw, fuasai dim o'n hangen ni. Yr ochor arall.

Yr ydw i am groesi i'r ochr arall. Dyna, mewn gwirionedd, ydi swm y geiriau hyn. Oherwydd, fel dywedais i, mae'n hawdd iawn, ac yn rhyddhad, yn wir, i ni fel cyfieithwyr gwyno pan ddown ni at ein gilydd, oherwydd hyd yn oed os mai gweithio mewn swyddfa neu griw yr ydan ni, mae o'n medru bod yn broffesiwn unig iawn. Ond nid yr unigrwydd fydd testun y ddarlith hon. Efo'r pwyslais cynyddol ar Gymraeg cyhoeddus, Cymraeg clywadwy, mi benderfynais i ganolbwyntio ar gyfieithu ar y pryd. Ac yn fwy na hynny, ar gyfieithu ar y pryd o safbwynt y sawl sy'n dibynnu arno. Y cwsmer/cleient, fel y dwedais i. Y di-Gymraeg. Y gelyn? Ynteu'r dioddefwr?

Dau safbwynt eithafol. Ac mewn awyrgylch ac amgylchiadau cyfoes sy'n medru bd yn eithafol, rydw i am wneud ple am gymedroldeb. Ac yn oes diwyliant y dioddefwr, rydw i am weld y sawl sydd dan anfantais, os mynnwch chwi, fel rhywrai i estyn allan atynt, rhai sydd â photensial rhyfeddol - os gwnawn ni fel cyfieithwyr wneud ein gwaith yn iawn, a defnyddio tipyn o ystyriaeth.

Rydan ni fel cyfieithwyr wedi siarad nes bod ein tafodau'n dwll am gael tipyn o ystyriaeth, a iawn hynny. Ond mae angen i ninnau hefyd fod yn ystyriol. Oherwydd trwy ystyried ein cwsmeriaid ac ystyried pob agwedd o beth mae'r profiad o fod yn dderbynwyr a defnyddwyr y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn olygu iddyn nhw, yn cawn ni eu clust. Yn llythrennol felly. Ac o gael eu clust, ennil eu calonnau.

Mi iddo'i at y calonnau a'r meddyliau yn y man. Ond o ddifri, rydw i am rannu'r sylwadau hyn i benawdau, ac y mae a wnelo nhw â'r corff: fel, yn wir, mae teitl y ddarlith.

Ystyriwch y glust. Ac un o'r pethau hanfodol rydan ni'n gweithio efo nhw, sef y clustffonau. ' Does dim rhaid sôn am rheiny, bosib, meddach chi, a hwythau'n bethau mae pawb yn eu cymryd mor ganiataol? Dyna'r union bwynt. Rwan rydw i am fynd â chi'n ôl ar daith hanesyddol, ac mi fydd rhai ohonoch yn cofio, a'r rhai ieuengaf yn eich plith yn synnu a rhyfeddu. Cofiwch y mathau cyntaf o offer, a'r clustffonau yr oedd yn rhaid i'n cwsmeriaid ddefnyddio. Yr offer gwifren oedd mor newydd yn ei ddydd, ond oedd yn golygu fod yn rhaid i bawb oedd yn derbyn cyfieithiad eistedd mewn un man, neu ar un ochr, arbennig, lle'r oedd yr offer, er mwyn iddyn nhw blygio'u hunain i mewn gerfydd y wifren. Oedd, roedd hynny yn cyfyngu ar ddewis y cwsmer, ac yn peri un nodwedd eitha diddorol mewn cyfarfodydd hefyd. Roedd o'n gyrru pobl at ei gilydd.

O lle tybiwch chi fod yr ymadroddion "chwith" a "dde" wedi tarddu mewn cyd-destun gwleidyddol? Maen nhw'n dweud wrtha'i mai o'r lle'r aeth y gwahanol garfannau i eistedd yn y Cynulliad Cenedlaethol newydd yn Ffrainc y Chwyldro. Mae'r rhesymeg yn hawdd ei ddeall - y ddynol natur yn gyrru pobl o'r un tuedd i glosio at ei gilydd, ac un siaradwr, o glywed rhywun o ben arall y siambr yn mynegi barn debyg iawn i'w un o, yn closio yn feddylol ac yna'n gorfforol, ac yn y diwedd, grŵp yn ffurfio. Digwydd bod y rhai o duedd mwy ceidwadol ar y dde, a'r lleill ar y chwith.

Rwan, dwi'n dweud dim am y grwpiau y gorfodwyd y di-Gymraeg i eistedd ynddyn nhw yn nyddiau cynnar offer cyfieithu - ond o hynny o ymchwil wnes i yn y dyddiau hynny, roedd o'n ffactor fechan oedd yn cyfrannu at anniddigrwydd pobl efo cyfieithu ar y pryd yn gyffredinol. Dwi'n sôn am ymchwil wnes i, ac y mae'n rhaid i mi bwysleisio mai elfennol a mympwyol iawn oedd o. Felly pan feddyliais i i ddechrau am destun y ddarlith hon, a meddwl am gyfieithu o safbwynt y defnyddiwr, tybiais mai'r peth iawn i'w wneud oedd bwrw ati i sbio ar ymchwil dipyn mwy systematig a gwyddonol. A chael nad oedd yna ddim.

Rydw i'n hollol o ddifri. Wnes i ddim mynd at y ffynhonnellau Cymreig i ddechrau, oherwydd roeddwn i'n amau y buasai yna brinder. Roeddwn yn

disgwyl hynny. Ond yr hyn a'm synnodd i, o sbio trwy'r defnyddiau am gyfieithu ar y pryd yn Saesneg, cyn lleied o wir ymchwil sydd yna hefyd, fel yr oedd yn rhaid i mi, yn Saesneg fel yn y Gymraeg, ddibynnu ar hanesion, ambell bwynt yma ac acw, a chrybwyll y defnyddiwr gyda llaw, fel petae, yng nghorff gwaith sydd yn ymwneud â rhywbeth arall.

Efallai, cofiwch, mai fi, a ninnau fel cyfieithwyr, sydd ar fai - wedi'r cwbl, roeddwn i'n chwilio yn fy nghylchgrawn tŷ fy hun, ym Mwletin yr ITI - cyhoeddiad hynod ddifyr a defnyddiol, gyda llaw, y talai i rywun geisio ymaelodi â'r ITI yn unig er mwyn cael hwn yn rheolaidd. Ac yn naturiol, mae cyhoeddiad felly yn mynd i ganolbwyntio ar gyfieithu o safbwynt y cyfieithydd. A chan nad oes yna ddim eto, hyd y gwn i, unrhyw gyfnodolyn arbenigol yn bodoli ar gyfer y garfan arall - dim Bwletin Astudiaethau y Cyfieithiedig Iddynt - mae'r cyfieithydd - i ac o unrhyw iaith - yn gorfod dibynnu ar anecdotau. Wedi dweud hynny, ddylen ni ddim diystyrru'r hanesion hyn, oherwydd fy mhrofiad i ydi eu bod nhw'n fan cychwyn digon defnyddiol i ymchwil mwy systematig.

Beth oedd barn pobl am gael eu rhoi o raid i eistedd yn yr un lle oherwydd gofynion y dechnoleg? Dim cymaint o anfodlonrwydd ag y tybiech chi, yn rhyfedd iawn. Ac mi fedra'i roi un rheswm (hollol anwyddonol) am hyn. Rydan ni'n sôn am y saithdegau, pan oedd technoleg cyfieithu yn ei fabandod - a hefyd pan oedd agweddau at y Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus lawer yn llai goleuedig nac y maen nhw nhw rwan. Ac os oeddach chi mewn cyfarfod cyhoeddus, ac yn cael eich gorfodi i ddefnyddio cyfieithu, roedd posibilrwydd eich bod i gyd o'r un tueddfryd. Gelyniaethus. Sori, mi ddyweda'i o, ond dyna oedd yr agwedd. Felly doedd eistedd efo'ch gilydd yn fawr o boendod.

Rwan rydw i am roi mwy o ganlyniadau f'ymchwil i chi. A dim ond crybwyll am ennyd, fel yr oedd pethau yn y saithdegau. Achos tydwi i ddim a ddisgyn i drap parod cyfieithwyr pan maen nhw'n dod at ei gilydd, o gyfnewid straeon am erchyllderau, heb symud dim ymlaen. Dyna'n bai ni. Felly, rhai erchyllderau - neu wirioneddau - a symud ymlaen wedyn, efo atebion am sut i ddatrys pethau.

Yn y saithdegau, mi fedrech gael pobl oedd yn gwrthod cymryd cyfieithiad. Hynny ydi, efo'r offer yno ac yn gweithio a phob dim, pobl yn cau ei

ddefnyddio. Fel mater o egwyddor. Yn gyfieithydd, mi fu'n rhaid i mi ddiode hyn. Doedd yna ddim byd fedrwn i wneud amdano fo, achos mi aeth y cyfarfod ymlaen yn Saesneg. Fel un sydd, erbyn hyn, yn cymryd rhan fwyfwy mewn cyfarfodydd, yn ogystal â bod yno yn gyfieithydd, mi wn yn iawn erbyn hyn beth fuaswn i'n wneud. Mi faswn i'n siarad yn Gymraeg, a dim gair o Saesneg. Ac yn gorfodi'r un sy'n cau gwrando i wrando. Neu aros mewn anwybodaeth. Y newyddion da ydi na fum i yn y math yma o gyfarfod am bymtheng mlynedd neu fwy. Mae'r newyddion drwg yn mynd i ddod dipyn yn nes ymlaen yn hyn o ddarlith.

Tydi hyn ddim yn broblem. Eu problem nhw ydi o. Ond mae grwpio pobl at ei gilydd, eu gorfodi nhw i eistedd lle nad ydyn nhw am eistedd yn broblem - a tydi'n clientiaid ni ddim i fod i ddiodef hynny. Ac yn ddiddorol iawn, tydi o dim yn digwydd gymaint heddiw, yn y cynulladau y bum i'n gweithio iddynt ac yn ymchwilio iddynt o ran cyfieithu. Does yna ddim gorfodi i eistedd yn rhywle oherwydd gofynion yr offer, am i'r offer fynd yn fwy soffistigedig. A hefyd, mae yna lawer iawn llai o garfannu o ran iaith yn unig, gan wthio'r di-Gymraeg at ei gilydd ar sail yr un nodwedd gyffredin honno. Nid hawlio yr ydw i fod hyn wedi digwydd yn unig oherwydd y datblygiadau ym maes technoleg cyfieithu - ond mae'r dechnoleg wedi hwyluso pethau, ac wedi chwarae ei ran yn y symudiad ehangach o greu consensws, a normaleiddio dwyieithrwydd.

Yn ystod yr ymchwil wnes i, mi ddeuthum i sylweddoli elfen mor bwysig ydi hwylustod y dechnoleg. Mi grybwyllais glustffonau funud yn ôl. Wn i ddim os ydi rhai ohonoch yn cofio un math o offer derbyn cyfieithiad eithaf cyntefig oedd yn union hynny - yn fath o ffon yr oedd yn rhaid i chi yn llythrennol eich dal wrth eich clust i glywed y cyfieithiad. Roedd ansawdd y sain crystal ag y gallai fod, ac yr oedd nobyn ar waelod y ffon oedd yn caniatu i chi newid sianel ac addasu'r sain i raddau - ond meddyliwch am yr anhwylustod o orfod ei ddal wrth eich clust am gyfnodau maith - yn enwedig os oeddach chi mewn cyfarfod a hefyd yn gorfod trin a thrafod papurau'r cyfarfod hwnnw, fel oedd yn digwydd yn aml. Ac yr ydw i eisoes wedi crybwyll y math o offer lle'r oeddech yn "gaeth" trwy wifren nid yn unig i le arbennig i eistedd, ond i'ch sedd ac yn gorfod datgysylltu'r wifren pan oeddech am adael y lle. (Rydw i'n cofio un "grand exit" gan gynghorydd wedi ffromi yn cael ei ddifetha'n llwyr, pan ddywedodd rywbeth i'r perwyl nad oedd am aros yma i gael ei hinsyltio, ar ôl anghytuno â phenderfyniad democrataidd, a martsio'n urddasol alan o'r

siambr - urddas a ddifethwyd braidd, gan y ffaith iddi anghofio bod yr offer yn dal yn sownd yn ei chlust, a bod y bocs yn cloncian ar ei hôl ar y llawr yr holl ffordd allan at ddrws y siambr). Ond dichon fod gan offer cyfieithu ei le hefyd mewn rhoi swigen mewn pwysigrwydd.....

Doedd hi, a tydi hi, ddim yn deg disgwyl i'r sawl sy'n derbyn cyfieithiad oddef anghysur. Ac mi gytunwn ni oll, rwy'n siwr, fod y datblygiadau diweddaraf, ffonau clust cyfarwydd o fath stethosgop, yn welliant mawr. Nid nad oes gan y rheiny eu hanfanteision hefyd, ac mi holais dipyn ynglyn â hyn.

O safbwynt y cyfieithydd, roeddwn yn gyfarwydd ag un felltith sy'n nodweddiadol o'r setiau bach hyn - maen nhw'n rhy hwylus o beth coblyn fel bod pobl yn anghofio ar derfyn cyfarfod eu bod yn eu gwisgo, ac mae'r bali pethau yn dueddol o ddiflannu! Ond roeddwn yn ymwybodol unwaith eto mai cŵyn o safbwynt y cyfieithydd oedd hyn. Beth am y cleient?

Cyfarwyddyd ar sut i'w defnyddio. Dyna un peth daeth allan yn gryf iawn o'r holl ymholiadau wnes i, ac i raddau, yr oeddwn yn synnu. Hwyrach fod hyn yn fai arnom ni, sy'n or-gyfarwydd, sy'n dod ar draws y peth yn ein gwaith bob dydd, ac - yn annheg, efallai - yn disgwyl i bawb arall fod yn gyfarwydd ac i wybod sut i defnyddio'r pethau. Ond mi ddaeth yn amlwg fod gair o gyngor ac o gyfarwyddyd - dangos, yn gorfforol, efallai, i'n cwsmeriaid sut i roi'r offer ar eu pennau, a lle i droi'r nobiau - yn arbed llawer o ddryswch ar ddechrau cyfarfodydd - neu, yn waeth, pa fydd cyfarfod wedi dechrau.

Mae'n rhaid i mi sôn am un peth sy'n fy snnu yma, fel un sydd wedi ceisio rhoi'r cyfarwyddyd. Wrth ddangos sut mae defnyddio offer, i fydda'i weithiau yn holi "Ydech chi wedi defnyddio offer o'r blaen?" Rhai wedi, a rhai heb - digon teg. Ac i'r rai sydd heb, hwyrach er mwyn gwneud iddyn nhw demlo'n llai anghyfforddus, roeddwn i'n arfer dweud rhywbeth fel "Ydach chi wedi gweld y math yma o beth mewn cynhadledd, hwyrach" gan gofio nid yn unig gyfarfodydd y gall pobl fod wedi mynd iddynt, ond hefyd raglenni newyddion, lle gwelwch chi wladweinyddion o lawer gwlad, yn Ewrop neu yn y Cenhedloedd Unedig, dywedwch, a llawer o'r rheiny yn amlwg yn gwisgo offer cyfieithu.

Mi synnais mai prin iawn, iawn - un neu ddau yn unig, yn wir, atebodd eu bod hw'n cofio gweld hyn. Rwan, wn i ddim a ydi'r offer mor anamlwg a hynny - mi

wn, o sbio ar lawer enghraifft, nad ydi o. Efallai mai enghraifft ydi hyn o syndrom peidio â sylwi ar rywbeth nes ei fod o'n effeithio arnoch chi, ond mae'n rhaid i mi ddweud fy mod i'n dal i synnu pa mor gyffredinol ddall ydi llawer o'n cleientiaid tro-cynta i fodolaeth systemau cyfieithu nes eu bod nhw'n eu defnyddio. Peth da neu beth drwg? Does na ddim ateb syml.

Ga'i felly awgrymu un cam syml y gallai cwmnïau neu sefydliadau cyfieithu wneud i hwyluso pethau i'w cwsmeriaid yn ogystal ag iddyn nhw eu hunain - ac y mae hyn yn wir hefyd am gyfieithwyr unigol hefyd. Diagramau syml - di-eiriau, os mynnwch chi - yn dangos sut i wisgo'r ffonau, yn nodi lle mae'r swits sain a diffodd. Math o ddiagram y gallech chi ei roi ar gerdyn, hwyrach, ar y bwrdd neu'r fan lle mae'r offer yn cael ei ddsbarthu.

Chwerthinllyd o syml, mi wn, a tydw i ddim yn dweud y basa fo'n gwneud i ffwrdd â'r angen i roi gair o esboniad - ond rydw i'n dod fwyfwy i gredu mai atebion syml aiff â ni lawer o'r ffordd i hwyluso bywyd i'r naill ochr a'r llall.

A dyna ni, pawb yn gwisgo'r clustffonau ac yn gyfforddus efo nhw. Na, mae arna'i ofn nad ydi hynny'n wir chwaith. Mae atebion yn datgelu elfen o anfodlonrwydd â'r offer - heb feio'r cyfieithwyr, rhaid i mi bwysleisio. Tydi hi dim yn beth tra chyfforddus i wisgo clustffonau am oriau bwygilydd, fel sy'n digwydd weithiau: mae'r clustiau yn mynd i frifo, ac y mae hyn yn rhywbeth sy'n codi mewn ymatebion i arolygon, ac yr oedd o'n rhywbeth grybwyllwyd yn yr ymchwil wnes i. Sut i oresgyn y broblem ydi'r anhawster. Mi wn i fod yna gamau wedi eu gwneud i gael offer i mewn yn y glust, ac y mae hwn erbyn hyn yn llai anamlwg na'r clustffonau stethosgop hyd yn oed. Un anfantais ydi eich bod chi'n mynd yn ôl gam, gan nad ydi hwn eto wedi ei ddatblygu gyda systemau is-goch - rydach chi'n ôl i fod yn sownd wrth y ddesg, os mynnwch chi. Ond wela'i ddim bod hyn y tu hwnt i ddychmyg na dyfeisgarwch - ac o ran hwylsutod, y mae o, mi ddadleuwn i, yn ddyletswydd ar y maes cyfieithu i ymchwilio iddo a datblygu. Gwnewch bopeth mor ddiraffferth ag sydd modd, ac yr ydach chi'n goresgyn rhwystrau - boed y rheiny'n gorfforol neu yn seicolegol - ac yr ydach chi gam arall ar y ffordd tuag at normaleiddio iaith.

Beth am yr iaith mae ein cleientiaid yn glywed, felly? Beth am ein cyfieithiadau ni - beth sy'n wych a beth sy'n wachul - yn ôl ein cleientiaid? Roeddwn i ofn fan hyn - ofn yr atebion, ac ofn gofyn cwestiynau arweiniol,

hefyd, i osgoi caswir yn yr atebion. Felly, mi geisiais ofyn ambell i gwestiwn penagored iawn, megis "Oedd rhywbeth yn ansawdd y cyfieithu a/neu y llais y carech wned sylw arno?" Dwi'n siwr nad oedd hynna yn ffordd wyddonol o ffurfio cwestiwn, ond mae'r atebion yn ddadlennol.

Mae o'n fater o bersonoliaeth ac o lais unigol yn aml iawn, wrth gwrs, ac yn fan yma, rydan ni mewn maes sensitif dros ben. Ond dim ond mor sensitif ag unrhyw faes yn ymwneud â hyfforddi, ddywedwn i. Pan fynegwyd anfodlonrwydd, yr hyn grybwyllwyd oedd - llais y cyfieithydd yn rhy uchel, efallai yn rhy gras. Yn rhy ymwithiol, fel bod hynny ynddo'i hun yn tarfu ar y cyfieithu, waeth pa mor dda oedd yr ansawdd.

Rwan, mae'r ateb i hynny yn ein dwylo neu'n gyddfau ni. Mater o hyfforddiant ydi o - a rhywbeth y buaswn i'n ddisgwyl i unrhyw un sy'n hyfforddi cyfieithwyr i ymdrin ag o. Rydw i wedi clywed cyfieithwr yn cwyno eu bod nhw'n gorfod gostwng eu lleisiau, lle nad oes yna fwth, er enghraifft, neu lle mae'r ystafell yn fach. Wel i mi, tydi hyn ddim yn achos cwyno - mae o'n un o hanfodion y grefft. Mae rheswm da pam fod yr offer bach newydd wedi ei fedyddio gennym ni gyfieithwyr yn "Offer Sibrwd" - dyna'n union rydech chi'n gorfod wneud. Ond mae yna sibrwd a sibrwd - a tydw i ddim yn ddigon o arbenigwraig - nac yn therapydd lleferydd, neu yn hyfforddwraig llais - i sôn yn dechnegol am oslef a thraw a thôn. Y cyfan y galla'i ddweud ydi i fod o'n bwysig, a'i fod o'n rywbeth y gellir ac y dylid hyfforddi cyfieithwyr i'w berffeithio.

Na, wrth gwrs, tydach chi ddim yn siarad mewn goslef siarad arferol. A hyd yn oed pan fydd yno chi fwth ac insiwleiddio sain o'r radd flaenaf, mi fuaswn i'n dal i bledio'n gryf yr angen i fod yn ymwybodol o gadw'r llais o hyd fymryn yn is na'r arferol, yn is na'r hyn sy'n normal mewn sgwrs. Oherwydd tydyn nhw ddim i fod i sylweddoli ein bod ni yno. Mae'r gwasanaeth i fod yno - ond yr ydan ni - yn llythrennol ac yn lleisiol - i fod yn y cefndir. Ac y mae o'n bosibl, efo hyfforddiant.

Dau bwynt cysylltiol, rwan - un lle mentrais i ofyn cwestiwn, ac un arall lle nad oeddwn i'n ddigon dewr - lle gwnes jibio, os mynnwch chi. Mae o'n bwnc sydd wedi bod yn fy meddwl i wrth wrando ar gyfieithwyr, ac wrth eu hyfforddi nhw. Y mater yma o acen. Cymry ydan ni gyfieithwyr. Wel, wrth gwrs - ond nid bob tro. Cymraeg ydan ni'n siarad bob dydd - wel, ie, ond pa mor aml?

Mae'n dibynnu ar ble'r ydach chi'n byw, ym mha ra o'r wlad, beth ydi eich gwaith, beth ydi eich amgylchiadau teuluol. Beth sydd a wnelo hyn efo'r acen, felly? Pan ydan ni'n cyfieithu, tydan ni ddim yn siarad Cymraeg, nac ydan? Ac yma yr ydw i'n taro ar hyn sy'n gwneud cyfieithwyr Cymraeg yn od - yn unigryw, bron. Ni ydi bron yr unig garfan o gyfiewithwyr sydd heb fod yn cyfieithu ar y pryd i'w mamiaith - sydd yn ofyniad, gyda llaw, i gyfieithwyr yr Undeb Ewropeaidd. Ond hefyd gyda llaw, tydw i ddim yn meddwl fod ffurfwyr amodau gwasanaeth yr Undeb Ewropeaidd wedi dod ar draws sefyllfa ail-iaith fel sy'n bodoli yng Nghymru, lle mae'r ail iaith mor bwerus a holl-bresennol. Ond mae'r rhan fwyaf ohonom ni, gadewch i ni gofio, yn cyfieithu i'n hail iaith. Nid pob un - ac y mae hyn yn bwynt perthnasol iawn.

Sut mae'ch Saesneg chi? Sut beth ydi'ch Saesneg chi? Cwestiwn rhyfedd i'w ofyn i gyfieithydd, efallai. Ond gofynnwch o i chi'ch hun rywbryd. Hyn ddyweda'i - mi wn i'n iawn fod gen i amrywiaeth o foddau o Saesneg - fel, yn wir, mae gen i amrywiaeth o foddau o Gymraeg. Ac mi fydda'i yn fwriadol yn dewis defnyddio un modd o Saesneg wrth gyfieithu. Mae o'n gywir (gobeithiol!) ac y llawer mwy niwtral na'r amrywiol fathau eraill o Saesneg y bydda'i yn eu defnyddio ar wahanol lefelau fy mywyd bob dydd. Yn acennog? Ydi, mae'n siwr - ond ddim yn eithafol felly, ac mewn unrhyw hyfforddiant, yr ydw i wedi pwysleisio'r niwtraliaeth yma, a dweud wrth gyfieithwyr i anelu at hynny, o ran acen. Nid dileu hunaniaeth ydi hyn, ond hogi'ch arfau at y gwaith - a chreu'r amodau gorau i'ch cleientiaid. Mewn gair, swnio fel pe na baech chi yno. (A dyna pam, gyda llaw, y mae cymaint o'r rhai ddysgodd Gymraeg fel ail iaith yn gwneud cystal cyfieithwyr ar y pryd).

Un peth oedd, yn fy nhyb i, yn gallu bod yn elfen ymyrrol neu ymwithiol mewn cyfieithu, oedd nid llais, ond rhyw. Mae yna ddynion a merched yn cyfieithu. Mae yna ddynion a merched mewn cyfarfodydd - yn trafod ac yn annerch. Ac yr oedd gen i ddiddordeb yng nghanfyddiad pobl o gyfieithwyr pan wrandewir arnynt - ac yn fwy penodol, o safbwynt traddodi darn gweddol faith - anerchiad neu ddarlith, dyweder, gan ddyn, a dynes yn cyfieithu, a *vice versa*. Fy ngreddf i oedd meddwl y buasai yna wrthdaro o raid - ond yn ôl y dystiolaeth, 'doedd hyn ddim yn faen tramgwydd. Yr atebion gefais i dro ar ôl tro oedd mai'r llif a'r rhythm oedd yn bwysig, nid fod dyn yn cyfieithu dyn, na merch yn cyfieithu merch. Yn wir, yr un oedd yr atebion hyd yn oed mewn enghreifftiau o ddarn estynedig pan fyddai newid cyfieithydd yn digwydd - y mwyaf y soniwyd amdano oedd bod y gwrandawr yn sylwi, wrth gwrs, fod y

llais yn newid, neu efallai yn gorfod addasu mymryn ar sain ei set oherwydd gwahaniaeth yn lefel lleisiau'r ddau gyfieithydd - ond 'doedd y ffaith mai llais dyn oedd yn cyfieithu merch yn siarad yn y gwreiddiol, na newid o ddyn i ferch ar y canol, hyd yn oed - yn mennu fawr ddim. Roedd hyn i mi fymryn yn annisgwyl - ond hefyd yn cadarnhau mai'r prif elfen o hyd mewn cyfieithu ar y pryd ydi'r llif cyson, yr hyder i fynd ymlaen yn ddi-dor.

Cododd hyn mewn cyd-destun gwahanol - ac un, yn anffodus, na chefais i gyfle i wneud unrhyw ymchwil na gosod unrhyw gwestiynau yn ei gylch. Prinder cyfle o'r math yma o gyfieithu oedd yn gyfrifol, felly mae'n rhaid dibynnu ar brofiad personol dyrnoid dethol o gyfieithwyr. Mae'r cwestiwn wedi codi unwaith neu ddwy ynglyn â chyfieithu ar y pryd mewn llysoedd, ac yn enwedig yng nghyd-destun croesholi. Oni fuasai'n haws, yn well neu yn fwy naturiol/realistig i gael dau gyfieithydd yma - un yn cyfieithu'r holi a'r llall yr atebion?

Mae'n rhaid i mi ddweud - ac eto, rydw i'n pwysleisio mai hanes a chyfleu profiad sy'n sail i hyn, nid ymchwil gwyddonol - mai "na" pendant fuasai f'ateb i. Dyma'r rhesymau:

Yn gyntaf, cyflymder. Yng nghyd-destun gweithrediadau ffurfiol llys barn, y rhan sydd gyflymaf a mwyaf anffurfiol ydi'r croesholi. Dyma lle mae'r *pace* uddasol yn cyflymu a'r ieithwedd hefyd yn llacio ac yn dod yn nes at ieithwedd y stryd.

Yn ail, anawsterau ymarferol. Mi fuasai'n rhaid chi gael y ddau gyfieithydd yn gyson - ar yr un pryd, bron - wrth y meic, ac mi fuasai hyn ynddo'i hun yn creu anawsterau ac yn cynyddu'r perygl o ddarnau yn mynd ar goll.

Hyd yn oed pan nad yw rhywun mewn sefylla llys, mi ddadleuwn i nad ydi un cyfieithydd i un llais - "actio", os mynnwch chi - yn cyfoethogi nac yn hwylsuo cyfieithu. Ond daliwch ar y gair yna - actio. Mae'n bwysig, i'r sawl sy'n derbyn cyfieithiad, eu bod nhw'n medru gwahaniaethu mewn sgwrs, cwestiynau neu gyfnewid syniadau yn sydyn, rhwng y gwahanol leisiau, rhwng y cwestiwn a'r ateb. Maen nhw'n gwneud hynny i raddau, wrth gwrs, o'r hyn a welant o'u blaenau - hynny yw, maen nhw'n gweld un yn siarad, ac un arall yn ateb. Ond y maen nhw hefyd ar yr un pryd yn gorfod derbyn y cyfieithiad, ac mae'n hanfodol eu bod nhw'n colli cyn lleied ag sydd modd o'r hyn sy'n mynd ymlaen.

Dyma lle daw'r "actio" i mewn - ar ran y cyfieithydd. A chredwch fi, mae o'n rhywbeth sydd, o hir ymarfer, yn dod bron yn naturiol. Mi gewch eich hun yn actio, yn newid tŷn neu oslef o un siaradwr i'r llall. Os tyf hyn i dod yn hollol anymwybodol a naturiol, gorau oll - ond mae o hefyd yn fedr y gall cyfieithwyr ymdrechu i'w ddysgu - eto, er lles a cysur i'r sawl sy'n derbyn y cyfieithiad, ac er mwyn normaleiddio'r sefyllfa.

Wedi rhestru rwan yr holl driciau a dyfeisiadau a gwelliannau, mi all rhywun deimlo'n reit ffyddiog, decini. Mae ein cleientiaid yn cael dŷl reit dda, tydyn? Mae'r gwasanaeth yno, y dechnoleg yn datblygu, a'r ffordd yn hwylus o'u blaenau.

Ydi, gobeithio. Ond peidied neb â thwylo ei hun. Mae yna ambell i broblem nad oes modd ei goresgyn yn derfynol, ambell i nodwedd fach brin fydd yn dal yno. Sef, mewn gair - oedi. Mi fedrwch gael y cyfieithydd gorau yn y byd, ond mi fydd yna'n wastad fwlch, saib, rhwng y gwreiddiol a'r cyfieithiad. Does dim modd gwneud i ffwrdd â hyn, neu mi wnewch i ffwrdd â'r gwahniaethau rhwng ieithoedd.

Hyn sydd wedi cael ei grybwyll, mewn ymateb i holiadur ar ôl holiadur, ac o sefydliadau a chan unigolion tra gwahanol. Yr oedi, y bwlch anorfod yna rhwng yr hyn sy'n cael ei ddweud, a chychwyn y cyfieithiad - neu ei ddiwedd, wrth gwrs. Mi all y cyfieithydd, yn naturiol, wella'r grefft trwy geisio gwneud y bwlch cyn fyrred ag sydd modd (Ac mae'n siwr nad fi ydi'r unig gyfieithydd sydd, o hir adnabod teithi meddwl ac yn wir gynnwys areithiau ambell i siaradwr, wedi gorffen yr un pryd â fo, neu hyd yn oed wedi cyfleu yr hyn oedd ganddo i'w ddweud cyn i'r siaradwr orffen siarad - a bod yn gywir, air am air hefyd!) Ond gwella yn unig fedr rhywun wneud - wela'i ddim ffordd i ddileu'r bwlch yn gyfangwbl. Yr hyn gesglais i o atebion y cwsmeriaid a holais oedd eu bod hwyhau hefyd yn ei dderbyn fel rhywbeth anorfod nad oedd wir yn mennu'n ormodol arnynt. Ond hwyrach mai nhw oedd yn bod yn ffeind. Mae canfyddiad yn cyfrif am lawer, yntydi - ac mi fuaswn i'n dadlau ein bod ni, erbyn hyn yn hanes cyfieithu, wedi ennill llawer o'r frwydr seicolegol, ac wedi goresgyn rhwystrau.

A, yr hen rwystrau seicolegol yna. A minnau'n meddwl y gallwn orffen ar binacl gobeithiol. Do, 'rydym wedi goresgyn y rhwystrau oedd yn bodoli pan

oedd cyfieithu yn ei fabandod - ond ga'i feiddio awgrymu bod y rhwystrau rwan yn fwy soffistigedig? Mi garwn awgrymu hefyd o lle maen nhw'n dod.

Cynigiaf ddwy olygfa.

Golygfa Un

Cyfarfod, lle mae'r rhan fwyaf o'r trafod trwy gfrwng y Saesneg, ond lle mae offer cyfieithu. Siaradwr Cymraeg (unig a dewr) yn gwneud cyfraniad yn yr iaith honno. Rhuthr wyllt am y offer - oherwydd bod y rhan fwyaf o'r di-Gymraeg sy'n bresennol wedi gadael eu clustffonau ar y bwdd.

Golygfa Dau

Cyfarfod, efo mwy o gyfartaledd Cymraeg/Saesneg. Yr un peth yn digwydd - ond y tro hwn, mwy o offer o gwmpas gyddfau neu yn y clustiau, am fod y cyfarfod yn fwy dwyieithog. Mae'r sefyllfa wedi normaleiddio. Ond wele oedi arall. Mae un neu fwy o'r cwsmeriaid yn cwyno - mae'n cael anhawster clywed, mae ymyrraeth ar y derbyniad, neu'r sain.

I amlygu'r newid yn fwy llym, gadewch i ni gyflwyno elfen fwy dramatig a hanesyddol i hyn. Mi ychwanegaf gyfarwyddiadau llwyfan, a hyd yn oed nodiadau ar y perfformiad. [Y darllenydd/gwrandawr i gyflenwi ei effeithiau sain ei hun, yn ôl mympwy].

Cyfarwyddiadau Llwyfan (ynghyd â nodiadau'r cynhyrchydd) ar gyfer perfformio ffars. Lleoliad - rhywle yng Nghymru. Amser - dechrau'r saithdegau).

Aelod o bwyllgor: Mi garwn i ddweud, Mistar Cadeirydd -

Cyfieithydd [*sotto voce*] And I'd like to say, Mr. Chairman -

Ymyrrwr uniaith: Excuse me, we can't hear the translation.

Cadeirydd: Can we make sure the equipment is all right?

Cyfieithydd [*voce mwy sotto fyth*]: Tro fo ymlaen, y diawl gwirion.

[*yn ei lais arferol*]: Could you try it facing this way?

Ymyrrwr uniaith(*ond awyddus i helpu*): I can hear a bit better now.

Cyfieithydd: [*llais arferol*] Ah, there we are - O.K now?

[*dan ei wynt*] O diawch, rown i'n siwr 'mod i wedi troi'r peth ymlaen.....

Diwedd yr act gyntaf. A diwedd cyfraniadau Cymraeg yn y cyfarfod, oni bai fod y cyfrannwr Cymraeg yn arbennig o benderfynol neu styfnig.

Cyfarwyddiadau Llwyfan ar gyfer perfformio melodrama. Lleoliad - rhywle yng Nghymru. Amser - y presennol.

Pwyllgorwr Cymraeg: Mi garwn i gael ateb gan y Gweinidog ynglyn â'r union swm a neilltuwyd yn y Gyllideb i'r cynllun, a'r gwahaniaeth rhwng hynny a'r swm a addawyd.

Cyfieithydd: [*sotto voce*]: I would like a reply from the Minister as to the exact sum allocated in the budget -

Ymyrrwr uniaith: [*Ie - y Gweinidog yw efe*] Oh, the translation doesn't seem to be working

Cyfieithydd: [*Aseid*] Aha! Rhagwelais ei fwriadau, a gwiriais yr offer ymlaen llaw. (*Gwna fosiwns mawr, ond cyflym, o wasgu swits*).

[*Llais arferol - gofaler ei fod yn diferu o fêl*]: I think you'll find it's working perfectly now.

Esboniad perffaith pam mai cyfieithydd, nid dramodydd, ydw i. Ond gobeithio eich bod chi hefyd wedi sylweddoli fod yna weithiau ymgais i droi dŵr bodolaeth cyfieithu i felin y cwsmer ei hun. O, gyda llaw, teitl y Felodrama oedd "Ennill Amser" - oherwydd credwch fi, dyna oedd y cwsmer arbennig hwn yn wneud wrth gwyno am ddiffygion honedig yr offer.

Dyma un enghraifft lle y buaswn i'n gosod fy hun yn glir gyda'r ochr arall - fy ochr fy hun, y cyfieithwyr - yn erbyn cleient neu gwsmer, yn groes i holl bwyslais hyn o ddarlith.

Gawn ni obeithio y diflanna'r math hwn o rwystr hefyd gydag amser, a hynny diolch i gyfrwystra'r arwr (y cyfieithydd, wrth gwrs), fel yn yr olygfa uchod. Ond da chi, sylwch sut y cafodd hyn ei wneud. Trwy sicrhau, gant a deg y cant ymlaen llaw, fod yr offer yn iawn. Trwy wneud popeth i hwyluso ffordd y cwsmeriaid, a sicrhau nad ydynt fyth dan anfantais. Oherwydd o anfantais, daw teimladau o diffyg grym, sy'n esgor ar gamau - annheg, efallai, weithiau - i ennill grym. Ac yn ein dwylo ni, fel cyfieithwyr, y mae'r atebion.

Dyma nhw yr atebion, yn syml, syml iawn:

Yn gyntaf, addysg. Addysgu ein cwsmeriaid i ddefnyddio'r offer yn y modd mwyaf cyfforddus a hwylus. Ac y mae addysg yn cynnwys camau ar ein rhan ni, gyfieithwyr, i hwyluso ac i roi cyfarwyddyd.

Yn ail, technoleg. Mae'n ddyletswydd arnom ni i gydweithio gyda'r cwmnïau offer - a chyda'n cwsmeriaid, trwy ymgynghori - i greu y systemau mwyaf hwylus ac effeithiol o ran cyfieithu ar y pryd, ac i bwysu'n gyson am estyn y ffiniau technegol.

Yn drydydd, cydweithio. Gyda'n gilyd, gyda'r "cyfieithedig iddynt", gyda sefydliadau, gyda gwledydd eraill all rannu profiadau cyffelyb, a hefyd roi gwedd newydd a ffres i ni.

Wrth gwrs, eironi hyn yw bod y tri ateb, y tri nod, yn gweithio tuag at yr un nod yn y pen draw, sef yr hyn a grybwyllwyd dro ar ôl tro gennyf - normaleiddio. Ac o safbwynt y cyfieithydd ar y pryd, bod yn anweledig. Y wobr orau y gall cyfieithydd gael yw peidio â derbyn diolch ar derfyn cyfarfod, am fod pobl yn y cyfarfod wedi derbyn gwasanaeth mor llyfn, diwniad a phroffesiynol, fel nad oedd y di-Gymraeg yn sylweddoli, bron, ei fod yno.

Dyna'r wers a ddysgais i gan un sydd, yn anad neb, yn haeddu diolch am bopeth, am gymaint a wnaeth i ni fe cyfieithwyr. Fel cydweithiwr, fel cyfaill,

fel cymdeithas - diolch, Hedley, a gobeithio bod hyn o eiriau wedi bod yn gychwyn ar gyfres fydd yn goffa teilwng ohono am amser maith iawn i ddod.